

Gwers 37 – Y Brenin ar gefn asyn

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Mathew 21: 1–9

Yr oedd Gŵyl y Pasg yn bwysig iawn yng nghalendr yr Iddew, a thyrrai miloedd o Iddewon pybyr a duwiol o bob cwr o'r byd i Jerwsalem, eu calonnau'n llawn cyffro a chenedlaetholdeb brwd; diben yr ŵyl oedd cofio gyda diolchgarwch ryddhau'r genedl o'r Aifft o dan arweiniad Moses ac Aaron. Byddai poblogaeth Jerwsalem yn treblu yn ystod yr ŵyl, hynny yn golygu fod y presenoldeb Rhufeinig yn cael ei gynyddu, rhag ofn i selot Iddewig fanteisio ar y cyfle i gynhyrfu'r bobl a'u troi yn erbyn y gormeswr o'r Eidal.

I'r sefyllfa hon y daeth Iesu gyda'i ddisgyblion i Jerwsalem, wythnos cyn iddo gael ei groeshoelio tu allan i furiau'r ddinas. Hyd yn hyn yn ei weinidogaeth, yr oedd Iesu wedi gwrthod cydnabod ei frenhiniaeth ei hun. Yng Nghesarea yr oedd Iesu wedi gofyn i'w ddisgyblion, 'pwy meddwch chwi ydwyf fi?'. Atebodd Seimon, 'Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw' (Mathew 16:15–16). Yna, gorchmynnodd i'w ddisgyblion beidio â dweud wrth neb mai ef oedd y Meseia.

Ond daeth yn amser iddo ddatguddio i'r bobl pwy ydoedd mewn gwirionedd, yn bennaf er mwyn cyflawni proffwydoliaeth Sechareia. Ganrifoedd cyn geni Iesu, roedd y proffwyd wedi dweud, 'Wele dy frenin yn dod atat â buddugoliaeth a gwaredigaeth, yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn, ar ebol, llwdn asyn' (Sech. 9:9). Disgwyliai'r Iddewon yn eiddgar am ddyfodiad y Meseia, a phan welsant Iesu'n marchogaeth ar ebol asyn, na fu neb ar ei gefn o'r blaen, daeth geiriau Sechareia yn fyw o'u blaenau. Gwelodd pobl Galilea Iesu'n cyflawni gweithredoedd mawr ac yr oeddent wedi disgwyl iddo ei gyhoeddi ei hun yn Feseia, ac yn awr roedd hynny'n digwydd. Anifail ar gyfer dyn heddychlon, marsiandwr neu offeiriad oedd ebol asyn a gallai brenin ei farchogaeth ar adegau, er byddai ef yn fwy tebygol o ymddangos ar farch rhyfel. Cyfeiriodd proffwydoliaeth Sechareia at y Meseia fel Tywysog tangnefedd, ac yr oedd Iesu'n marchogaeth i'r ddinas mewn ffordd a oedd yn cyflawni'r broffwydoliaeth. Er iddynt edrych ymlaen at Feseia a fyddai'n eu harwain yn erbyn y Rhufeiniaid nid oedd gweld Iesu'n cyhoeddi ei hun fel brenin heddychlon yn lleihau dim ar eu cenedlaetholdeb brwdfrydig. Roeddent eisiau Meseia. Ac yr oeddent yn gweld un o flaen eu llygaid yn y ddinas.

Yr Wythnos Fawr


Dydd Sul: Yr ymdaith i Jerwsalem.

Dydd Llun: Clirio'r Deml.

Dydd Mawrth: Iesu yn dadlau yn y Deml gyda'r offeiriad a'r henuriaid. Gyda'r hwyr yr oedd Iesu a'i ddisgyblion ar fynydd yr Olewydd.

Dydd Iau: Iesu'n gwneud trefniadau ar gyfer bwyta'r Pasg â'i ddisgyblion. Gyda'r hwyr yr oedd Iesu a'i ddisgyblion yn yr oruwch ystafell i fwyta gwledd y Pasg. Ar y terfyn aethant allan i ardd Gethsemane ac yn ystod y nos arestwyd Iesu a'i ddwyn ymaith i sefyll ei brawf.

Dydd Gwener: Ar ôl ei ddedfrydu i farwolaeth, arweiniwyd Iesu yn cario ei groes ei hun, i fryn Golgotha, tu allan i furiau'r ddinas.



Una'r dotiau. Pa fath o ganghennau a chwifiodd y bobl wrth i Iesu deithio ar gefn yr asyn?
 Cei hyd i'r stori hon yn loan 12:12-19.

Gwers 37 – Y brenin ar gefn asyn

Sul y Blodau | Mathew 21:1–9

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 156



Gwers 37

Y brenin ar gefn asyn

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Y brenin ar gefn asyn tud 156

BEIBL LLIW STORI DUW

Iesu'n mynd i Jerwsalem tud 362

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Yr Orymdaith Fawr tud 132

BEIBL LLIW Y PLANT

Iesu'n mynd i mewn i Jerwsalem tud 256

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Sul y Blodau tud 199

BEIBL BACH I BLANT

Mul Bach i'r Brenin tud 432

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU

Yr Orymdaith fawr (318) tud 361

BEIBL LLIW Y TEULU

Iesu'n mynd i Jerwsalem (272)

I Ddechrau

Cwis "Beth ydw i?"

Rhannwch y plant i dimoedd ar gyfer y cwis canlynol. Esboniwch eich bod yn mynd i roi cliwiau iddynt er mwyn iddynt ddyfalu modd penodol o drafnidiaeth. Gofynnwch i un tîm ateb ar y tro. Rhowch un cliw ar y tro. Os ydynt yn dyfalu yn gywir pa fodd o drafnidiaeth sy'n cael ei disgrifio ar ôl clywed y cliw cyntaf yn unig, byddant yn ennill 10 pwynt; ar ôl clywed yr ail gliw, 5 pwynt; ar ôl y trydydd cliw, 3 pwynt.

- Cerbyd pedair olwyn ydwyf / Yn ddefnyddiol iawn ar fferm / Olwynion maint gwahanol sydd gennyf. TRACTOR
- Cerbyd argyfwng ydwyf / Mae gennyf gorn a goleuadau sy'n fflachio / Lliw coch ydwyf. INJAN DÂN
- Dwy olwyn sydd gennyf / Mae'n rhaid gwisgo helmed / Gall dau berson fy nefnyddio i ar yr un pryd. TANDEM
- Rwyf yn cludo llawer o bobl ar yr un pryd / Mae'n rhaid prynu tocyn i'm defnyddio / Nid wyf yn defnyddio heolydd. TRÊN
- Byddwch yn gweld y môr wrth fy nefnyddio i / Efallai yr hoffech gysgu arnaf / Gall ceir a lorïau drafaelio arnaf hefyd. FFERI
- Does dim olwynion gennyf / Rwyf angen cyfrwy / Cewch fy ngweld ar lan y môr. MUL

Yr Hanes

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

O flaen llaw, torrwcw 6 siâp deilen ac ysgrifennwch y brawddegau canlynol arnynt:

Gyda grŵp mawr o blant, gallwch wneud copïau ar bapur lliw gwahanol a rhannwch y grŵp i dimoedd, fel bod pob tîm yn chwilio am liw gwahanol.

1. 'Ewch i'r pentref acw a gwelwch asyn a'i hebol gyda hi
2. Os bydd rhywun yn holi, dywedwch 'Mae'r Arglwydd eu hangen nhw; bydd yn eu hanfon yn ôl wedyn.'
3. Dyma nhw'n taflu eu cotiau arnynt nhw, a dyma Iesu'n eistedd ar gefn yr ebol.
4. Dechreuodd y dyrfa daflu eu cotiau ar y ffordd o'i flaen, neu dorri

dail o'r coed a'u lledaenu ar y ffordd.

5. Roedd y dyrfa yn gweiddi, 'Hosanna i Fab Dafydd!'

6. Roedd Jerwsalem mewn cynnwrf pan aeth Iesu i mewn. 'Pwy ydy hwn?' meddai rhai.

Cuddiwch y dail o amgylch yr ystafell. Esboniwch wrth y plant eu bod yn chwilio am ddail, a bod rhan o'r hanes i'w gael ar bob un, ac ar ôl casglu'r 6 deilen, mae'n rhaid i bob tîm osod y stori mewn trefn a'i darllen. Gofynnwch i rai o'r plant i ddarllen yr hanes ar goedd.

Cymhwyso

Dangoswch y llun o Iesu'n marchogaeth asyn. Cynorthwywch y plant i ddod o hyd i Mathew 21:9. Beth oedd y bobl yn gweiddi wrth gyfarch Iesu? Pwy oedd Dafydd? Ai Dafydd oedd enw tad Iesu?

Esboniwch mai Brenin pwysicaf Israel oedd Dafydd- roedd wedi byw blynyddoedd cyn Iesu, ond roedd Iesu'n perthyn iddo. Felly, wrth alw Iesu'n fab Dafydd, roedd y bobl yn ei gyfarch fel Brenin. Roedd y gair Hosanna yn cael ei ddefnyddio i ganmol rhywun.

Gofynnwch i'r plant pam fod Iesu'r Brenin yn marchogaeth asyn i mewn i Jerwsalem ac yntau'n Frenin? Ar ôl gwrandao ar gyfraniadau'r plant, esboniwch nad Brenin cyffredin oedd Iesu, doedd e ddim yn byw mewn palas gyda llawer o arian a gweision.

Roedd Iesu wedi dod i'r byd i ddangos bod Duw yn caru ei bobl ac am fod yn Frenin ym mywydau ei bobl. Mae Iesu am fod yn Frenin yn ein calonnau – mae am fod yn fos yn ein bywydau.

Gweddi

Darllenwch y weddi ganlynol, gyda phawb yn ymuno i ddweud 'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

'Diolch Iesu am ein caru. 'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch am ddod i'r byd. 'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch am yr holl wyrthiau sy'n dangos i ni pwy wyt ti. 'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch am farw ar y groes drosom. 'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch dy fod ti'n gryfach na marwolaeth. 'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Diolch am atgyfodi ar y trydydd dydd. 'Hosanna. Iesu yw'r Brenin.'

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed *Pobl yn llawenhau wrth i Iesu gyrraedd Jerwsalem* tud. 111

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Pasg: Iesu'r Brenin

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres a, B a C – Y Groes a Iesu'n Marw

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 46: Iesu'r Brenin

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Stori 55: Mul Bach i'r Brenin

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 348

Llyfrau Stori

Stori'r Pasg i Blant Bach
Stori'r Pasg
Rhywun Arbennig Iawn
Y Pasg Cyntaf

